

## Tasg 1

(Craidd, sbardun 2)

Dychmygwch. Rydych chi'n teithio ar hyd Highway 375. Mae'n ffordd hir, syth, unig iawn.

Yn sydyn, rydych chi'n sylwi ar long ofod sydd wedi stopio ar ochr dde'r ffordd. Rydych chi'n mynd draw ac rydych chi'n gweld aliwn tu allan i'r llong. Rydych chi'n siarad â'r aliwn.

1. Tynnwch lun yr aliwn ond peidiwch â'i ddangos i'ch partner.
2. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r aliwn ond peidiwch â'i ddangos i'ch partner.
3. Darllenwch eich disgrifiad i'ch partner. Bydd eich partner yn ceisio tynnu llun eich aliwn chi wrth i chi ei ddisgrifio.

Cymharwch eich llun chi a llun eich partner.

4. Ysgrifennwch y sgwrs rhyngoch chi a'r aliwn.